

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y CABINET DROS YR AMGYLCHEDD

13 HYDREF 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

R. S. Waters, Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd ;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 2:30yp - 2:50yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIAD - 25 MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 25 Mehefin, 2021 gan ei fod yn gofnod cywir.

3. GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG AR GYFER CYFYNGIADAU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD LLANELLI (AMRYWIAD GORCHYMYN RHIF 38)

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad a oedd yn manylu ar wrthwynebiadau i gynnig y Cyngor o ran gwneud Gorchymyn i ddiwygio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 38) 2004. Diben y cynnig oedd cyflawni dyletswydd statudol yr awdurdod i sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus ac i wella diogelwch ffyrdd. Nodwyd y lleoliadau yn Llanelli yn yr amserlen arfaethedig a'r cynlluniau a atodir i'r adroddiad.

Dywedwyd bod Pennaeth Gweinyddiaeth a Chyfraith y Cyngor wedi derbyn deg gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ymwneud â phedwar o'r strydoedd a hysbysebwyd.

Ystyriodd yr Aelod Cabinet y cynigion ynghyd â'r gwrthwynebiadau cysylltiedig a dderbyniwyd, sylwadau ac argymhellion y swyddogion a gyflwynwyd fel a ganlyn:-

- Lôn Penyrheol, Llanelli;
- Marchnad Dan Do Llanelli, Llanelli;
- Min y Môr, Llanelli;
- Heol Bres, Llanelli.

PENDERFYNWYD:

3.1 nodi'r gwrthwynebiadau, fel yr oeddent yn yr adroddiad;

3.2 cymeradwyo argymhellion 2.1, 2.2, 2.3, a 2.4 fel y nodir yn yr adroddiad.

4. GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG AR GYFER CYFYNGIADAU AROS (AMRYWIAD GORCHYMYN RHIF 39) A MANNAU PARCIO AR Y STRYD LLANELLI (AMRYWIAD GORCHYMYN RHIF 8)

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad yn manylu ar wrthwynebiadau i gynnig y Cyngor i wneud Gorchymyn i ddiwygio:-

- Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 39) 2021 a
- Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llanelli) Ardal Barcio Arbennig (Preswyl) Mannau Parcio (Gorchymyn Amrywio Rhif 8) 2021.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r ddau Orchymyn uchod, gan gydnabod bod nifer o strydoedd yr effeithiwyd arnynt yn cynnwys newidiadau arfaethedig fel yr amlinellir yn y ddau Orchymyn. Nodwyd y lleoliadau yn Llanelli yn yr amserlen arfaethedig a'r cynlluniau a atodir i'r adroddiad.

Dywedwyd bod y gwrthwynebiadau a gafwyd yn ymwneud â'r ddau Orchymyn a bod Pennaeth Gweinyddiaeth a Chyfraith y Cyngor wedi derbyn 24 o wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ymwneud â phedwar o'r strydoedd a hysbysebwyd.

Ystyriodd yr Aelod Cabinet y cynigion ynghyd â'r gwrthwynebiadau cysylltiedig a dderbyniwyd, sylwadau ac argymhellion y swyddogion a gyflwynwyd fel a ganlyn:-

- Prospect Place, Llanelli;
- Stryd Albert, Llanelli;
- Stryd Iago a Heol Glenalla, Llanelli;
- Teras Coleshill, Llanelli;
- Stryd Andrew ac Andrew Terrace

PENDERFYNWYD:

4.1 nodi'r gwrthwynebiadau, fel yr oeddent yn yr adroddiad;

4.2 cymeradwyo argymhellion 2.1, 2.2, 2.3, 2.4 a 2.5 fel y nodir yn yr adroddiad.

5. SHOPMOBILITY CAERFYRDDIN

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad ynghylch cefnogi Shopmobility Caerfyrddin drwy grant pellach o £19,650 am gyfnod o 12 mis o fis Medi 2021, a £5,000 i ddiogolledu'r incwm yn ystod pandemig covid sy'n parhau a oedd yn cynnwys y swm gweithredol arferol o £14,650 a fyddai'n cael ei ariannu o elfen Trafnidiaeth Gymunedol Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau Cyngor Sir Caerfyrddin.

Nodwyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cefnogi cynllun Shopmobility ers 2011 a'i fod wedi cael incwm drwy godi tâl a thrwy gynnal gweithgareddau i godi arian. Fodd bynnag, roedd yn dibynnu'n bennaf ar gefnogaeth ariannol gan y Cyngor.

Nododd yr Aelod Cabinet fod y cynllun yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r rhai sy'n cael anhawster i symud a'i fod wedi bod yn llwyddiannus cyn covid gydag oddeutu 1,289 o gwsmeriaid y flwyddyn. Yn ystod cyfyngiadau symud y pandemig diweddar, roedd y cyfyngiadau wedi gorfodi Shopmobility i gau ym mis Mawrth 2020, ond drwy waith da staff ac Ymddiriedolwyr ailagorodd ym mis Tachwedd 2020.

Yn ogystal, er bod nifer yr ymwelwyr yn y dref wedi dechrau gwella'n araf, cydnabuwyd bod effaith covid wedi lleihau'r sylfaen cwsmeriaid yn sylweddol, ac efallai na fydd adferiad llwyr i lefelau cyn covid yn cael ei wireddu yn y flwyddyn 2021/22 hyd at fis Medi 2022.

PENDERFYNWYD rhoi grant pellach o £19,650 i gynorthwyo Shopmobility Caerfyrddin am gyfnod o 12 mis arall, gan gychwyn ym mis Medi 2021, yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.

6. SHOPMOBILITY LLANELLI

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad ynghylch cefnogi Shopmobility Llanelli drwy grant pellach o £14,650 am 12 mis o fis Awst 2021.

Nodwyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cefnogi cynllun Shopmobility ers 2011 a'i fod wedi cael incwm drwy godi tâl a thrwy gynnal gweithgareddau i godi arian. Fodd bynnag, roedd yn dibynnu'n bennaf ar gefnogaeth ariannol gan y Cyngor.

Nododd yr Aelod Cabinet fod Shopmobility yn un o nifer o fentrau a anogir gan yr Awdurdod i gefnogi tref Llanelli a'i fod yn elfen bwysig o sicrhau bod mynediad i siopau, busnesau a gwasanaethau yn Llanelli yn gynhwysol ac yn darparu ar gyfer y rhai sydd ag anableddau symud.

PENDERFYNWYD rhoi grant pellach o £14,650 i gynorthwyo Shopmobility Llanelli am gyfnod o 12 mis arall, gan gychwyn ym mis Medi 2021, yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD